# Y diweddaraf am gyfraniad y sector gwirfoddol at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector**
**20 Tachwedd 2019**

**Fforwm Cymdeithas Sifil i Randdeiliaid ar gyfer trafod Llesiant Cenedlaethau heddiw a Chenedlaethau'r Dyfodol?**

## Diben

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ynghylch yr hyn sydd wedi ei wneud i ymchwilio i'r syniad o greu fforwm cymdeithas sifil i randdeiliad ar gyfer trafod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cefndir

2. Yn y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ym mis Mai 2019, cytunwyd ar ddau gam gweithredu o dan Eitem 2 ar yr Agenda, gan drafod materion yn ymwneud ag ymgysylltu a chyd-gynhyrchu. Dyma'r ddau gam dan sylw:
   a) Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ofyn i swyddogion ymchwilio i ba drefniadau fyddai'n bosibl ar gyfer creu fforwm rhanddeiliaid i helpu Llywodraeth Cymru i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
   b) Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (drwy Ruth Marks) i gysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n deillio o'r trafodaethau

   Cafodd y papur hwn ei ddrafftio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru (cam gweithredu A) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (cam gweithredu B).

## Cam gweithredu A – Fforwm Cymdeithas Sifil i Randdeiliaid

3. Mae'r cynnig ar gyfer ystyried sefydlu 'Fforwm' i helpu i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn deillio o'r gwaith a gafodd ei arwain gan y trydydd sector a Llywodraeth Cymru, a arweiniodd at lunio'r adroddiad 'Pawb gyda'i Gilydd' (2018). Ar ôl cynnal gweithdy pellach ym mis Mai 2019 ar gyfer sefydliadau o'r trydydd sector, trafodwyd y cynnig yng nghyfarfod mis Mai y Cyngor, lle y gwnaed ymrwymiad i ymchwilio i hyn ymhellach. Awgrymwyd y dylai cwmpas y gwaith gynnwys amrywiaeth eang o sectorau, gan mai prin fu'r cyfleoedd i'r sectorau preifat a chyhoeddus ymgysylltu mewn perthynas â'r agenda hon yn y gorffennol.
4. Yn ogystal â'r adroddiad 'Pawb gyda'i Gilydd', mae sylwadau ac awgrymiadau ynghylch cyfraniad a chyfranogiad rhanddeiliaid at waith Llywodraeth Cymru wedi dod o'r ffynonellau canlynol:
   a. Y gwaith o fwydo profiad Cymru i mewn i'r Adolygiad Cenedlaethol o'r Sector Gwirfoddol yn y DU sy'n edrych ar hynt cyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn y DU, a'r adroddiad atodol ar Gymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.
   b. Arferion rhyngwladol ar gyfer ymgysylltu â phobl o ran gweithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, yn enwedig o dan faner y Cenhedloedd Unedig sy'n

hyrwyddo partneriaethau sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid (Nod 17);

c. Gwaith newydd sy'n digwydd wrth i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru arwain gwaith ar arferion rhyngwladol a wneir ar y cyd â'r WWF/Cynnal Cymru.

5. Ers mis Mai, mae'r Tîm Polisïau ar gyfer y Dyfodol yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn parhau â'r sgwrs hon gyda rhanddeiliaid, ac mae wedi mynd ati i ymgysylltu ynglŷn â Chymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Drwy feithrin dealltwriaeth a chynnal sgyrsiau, nodwyd y gwahanol anghenion/gofynion a disgwyliadau sydd gan randdeiliaid, o ran y fforwm ei hun ac ymgysylltu â'r Llywodraeth mewn perthynas â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma grynodeb o'r materion hynny:

   a. Yr angen i gael gwybod am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud (ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
   b. Sut y gellid darparu arbenigedd fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cymru
   c. Sut y gellid sbarduno gweithgarwch (gan gynnwys camau a gymerir gan unigolion a chymunedau, yn ogystal â chamau a gymerir gan bobl mewn sefydliadau)
   d. Sut y gellid rhannu arferion da a chael cyngor

6. Mae gofynion yn y pedwar maes hyn yn gallu bod yn eang eu cwmpas ac yn amrywiol, ac felly ni fyddai'n ymarferol disgwyl i un ateb, megis creu fforwm fod yn ddigon i fodloni'r gwahanol anghenion sydd gan randdeiliaid. Er mwyn deall y pedwar gofyniad hyn yn well, ac i nodi cwmpas yr atebion posibl ac ymchwilio iddynt, cynhaliwyd dau weithdy ar gyfer amrywiaeth o sectorau ar 17 a 29 Hydref. Roedd strwythur y ddau weithdy yn creu cyfle i'r cyfranogwyr ystyried atebion posib ar gyfer pob un o'r gofynion hyn. Hefyd gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi unrhyw fforymau, grwpiau, neu ffyrdd o weithio sy'n bodoli ar hyn o bryd, a fyddai'n gallu darparu dull arall o fodloni'r anghenion hyn.

7. Daeth 35 o bobl i'r gweithdai, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector Addysg Uwch/Addysg Bellach, y sector cyhoeddus, a sefydliadau o'r sector preifat. Nododd y cyfranogwyr atebion posibl a gwahanol opsiynau. Roedd y ffurflenni gwerthuso'n dangos eu bod wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithio gyda phobl o sectorau eraill a chyfrannu at y broses o lunio atebion.

8. Mae'r syniadau a gynigiwyd gan y cyfranogwyr mewn ymateb i bob un o'r gofynion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Mae'n rhy gynnar i allu cyflwyno opsiynau sydd wedi eu datblygu'n llawn, felly mae'r papur hwn yn rhannu rhywfaint o'r ddealltwriaeth gychwynnol o'r meini prawf a fyddai'n gallu llwyddo i fodloni pob un o'r gofynion.

9. Yn ôl y dadansoddiad cychwynnol hwn, mae'n bwysig bod unrhyw ddull ymgysylltu effeithiol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol adlewyrchu'r nodweddion canlynol:

   a. canolbwyntio ar y Nodau Llesiant
   b. bod yn agored ac yn hygyrch
   c. bod yn ddwyieithog

d. darparu gwybodaeth ddefnyddiol
e. defnyddio platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol
f. grymuso pobl i weithredu
g. bod yn hawdd ei ddefnyddio
h. creu cysylltiadau ar draws sectorau a chyda Llywodraeth Cymru
i. hwyluso cyfathrebu i'r ddau gyfeiriad

10. O ran Gofyniad (a) ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, a Gofyniad (b) ynglŷn â darparu arbenigedd, roedd y meini prawf canlynol, sy'n ymwneud â thryloywder a hygyrchedd, hefyd yn bwysig:
    a. Dylid darparu gwybodaeth am bolisïau a chynlluniau portffolios ac adrannau ar gyfer y presennol a'r dyfodol
    b. Dylid darparu gwybodaeth am bwy sydd â'r cyfrifoldeb o fewn Llywodraeth Cymru (gwleidyddion a swyddogion) am agweddau ar wahanol Nodau Llesiant, a hefyd agweddau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a sut i gysylltu â nhw
    c. Dylid gwneud ymrwymiad i wrando

Mae'r gallu i gysylltu â'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisïau yn ffactor pwysig i randdeiliaid, a oedd yn awyddus i ddarparu arbenigedd a bod yn gyfaill beirniadol i lywodraeth. Mae'r rhanddeiliaid hyn hefyd yn awyddus i weld y rôl hon yn cael ei gwerthfawrogi'n briodol.

11. Roedd gan Ofyniad (c) ynglŷn â sbarduno gweithgarwch, a Gofyniad (d) ynglŷn â rhannu arferion da a chael cyngor, ddigon o feini prawf a syniadau ar gyfer atebion yn gyffredin. Roedd hynny'n awgrymu y byddai'n bosibl gael un ateb a fyddai'n gallu bodloni'r ddau angen hyn.  Roedd y meini prawf yn cynnwys:
    d. Rhannu arferion da ac astudiaethau achos enghreifftiol
    e. Opsiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb
    f. Sbarduno sy'n dod o'r tu mewn yn hytrach nag o'r tu allan

**Y camau nesaf**

12. Mae'r syniadau ar gyfer atebion, a gafodd eu cynnig gan y cyfranogwyr, yn cael eu mireinio, a byddant yn cael eu profi er mwyn cael eu cynnwys mewn papur opsiynau a roddir i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn y flwyddyn newydd. Byddwn mewn sefyllfa yng nghyfarfod y Cyngor fis Tachwedd i gyflwyno syniadau cychwynnol am atebion posibl er mwyn eu trafod.
13. Gwahoddir cyfranogwyr y gweithdai ac aelodau'r Cyngor i weithio gyda'r Tîm Polisïau ar gyfer y Dyfodol yn ystod y cyfnod profi. Bydd hyn yn cynnwys profi atebion yn erbyn y meini prawf ar gyfer sicrhau llwyddiant a nodwyd yn y gweithdai; mapio taith defnyddwyr yn y dyfodol er mwyn sicrhau y bydd yr atebion yn bodloni eu gofynion; ac asesu pa adnoddau gweithredu y bydd eu hangen.

**Cam gweithredu B – Deialog gyda Chomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

14. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn rhannu'r gred y bydd angen i sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru chwarae rhan allweddol os bydd Cymru am gyflawni'r Nodau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ill dau rôl i'w chwarae yn y gwaith o helpu'r trydydd sector i wneud hynny.
15. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gaiff ei gefnogi gan gynllun gwaith blynyddol sy'n nodi sut y byddant yn cydweithio i alluogi sefydliadau yn y trydydd sector i wneud mwy o gyfraniad at y gwaith o gyflawni'r nodau Llesiant.
16. Un o'r prif gamau gweithredu a gynigir yw y dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a rhwydweithiau'r trydydd sector gyfarfod â'i gilydd ddwywaith y flwyddyn. Fe gynhelir y cyfarfod cyntaf ar 13 Tachwedd. Bydd y cyfarfod hwn yn gyfle i drafod y gwaith y mae'r Comisiynydd yn ei wneud i baratoi Adroddiad ar Genedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2020. Bydd yn gyfle hefyd i rwydweithiau yn y trydydd sector egluro'r trafodaethau sy'n digwydd yn fforwm rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau'r trydydd sector.
17. Mae'r adroddiad a baratowyd gan Cynnal Cymru yn edrych ar yr angen am glymblaid sy'n cael ei harwain gan y trydydd sector, ac sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy – neu ar lesiant cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Byddai clymblaid fel hon yn gwella arbenigedd o ran sicrhau cynaliadwyedd yn y sector gwirfoddol. Byddai hefyd yn gallu datblygu'n rhwydwaith mwy deinamig, sy'n ei gwneud yn haws sbarduno gweithgarwch ar draws sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru.

**Gofynnir i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector:**
Nodi'r papur